Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Canllawiau ar gyfer y broses Amser Allan o'r Rhaglen Hyfforddiant Sylfaenol (TOFP) yng Nghymru

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i Feddygon Sylfaen presennol sy'n dymuno cymryd peth amser allan o'u hyfforddiant Sylfaen rhwng eu blynyddoedd F1 a F2 a dylid eu darllen ar y cyd â'r 10fed Argraffiad o'r Canllaw Aur. Mae TOFP fel arfer yn para am gyfnod o 12 mis.

## Broses ar gyfer ceisiadau TOFP

Yn y lle cyntaf, dylai Meddygon Sylfaen drafod eu bwriadau gyda'u Goruchwyliwr Addysg a/neu Gyfarwyddwr Rhaglen Sylfaen. Yna mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi'r Ffurflen Gais TOFP genedlaethol (a geir ar wefan UKFPO), a'i chyflwyno i Ysgol Sylfaen Cymru drwy HEIW.FoundationSchool@wales.nhs.uk.

Rhaid derbyn ceisiadau o leiaf **chwe mis** cyn dechrau'r cyfnod TOFP y gofynnwyd amdano, gyda'r bwriad y bydd yn cael ei gadarnhau gydag o leiaf 3 mis o rybudd ar gyfer pob parti. **Sylwch na dderbynnir ceisiadau hwyr neu anghyflawn.**

Bydd y cais TOFP yn cael ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Ysgol Sylfaen (neu'r Dirprwy) a darperir cadarnhad o'r canlyniad drwy e-bost o fewn un mis calendr.

Pan dderbynnir nifer fawr o geisiadau gan garfan, bydd ceisiadau'n cael eu cymeradwyo yn seiliedig ar ddewis ar hap unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi mynd heibio.

## Tynnu cais TOFP yn ôl

Os yw Meddyg Sylfaen yn dymuno tynnu ei gais TOFP yn ôl, dylent hysbysu'r Ysgol Sylfaen cyn gynted â phosibl, a heb fod yn hwyrach yn y broses na **10 diwrnod gwaith** ar ôl cadarnhad bod eu cais wedi'i gymeradwyo.

Os bydd y Meddyg Sylfaen yn tynnu eu cais yn ôl ar ôl y pwynt hwn, bydd eu dyraniad lleoliad gwreiddiol wedi cael ei ryddhau ac efallai na fydd yn bosibl dyrannu rhaglen hyfforddi amgen iddynt yn ei le.

## Dychwelyd o TOFP

Trwy gyflwyno cais TOFP, mae'r Meddyg Sylfaen yn ymrwymo i ddychwelyd i hyfforddiant F2 yng Nghymru ar y dyddiad dychwelyd cymeradwy.

Bydd yr Ysgol Sylfaen mewn cysylltiad chwe mis cyn y dyddiad dychwelyd cymeradwy i gael cadarnhad bod y Meddyg Sylfaen yn dal i fwriadu dychwelyd i'r Rhaglen Sylfaen yng Nghymru, a chydlynu a chadarnhau eu lleoliadau hyfforddiant yn y dyfodol.

**Er bod y Meddyg Sylfaen yn sicr o ddychwelyd i Raglen Sylfaen Cymru, nodwch na ellir gwarantu cylchdro, ysbyty, Bwrdd Iechyd neu ranbarth penodol.**

Fersiwn 3: Ionawr 2025